Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

LLOYD, EVAN (1800 - 1879) a JOHN (fl. 1833-59) argraffwyr a chyhoeddwyr

Enw: Evan Lloyd
Dyddiad geni: 1800
Dyddiad marw: 1879
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffwyr a chyhoeddwyr
Maes gweithgaredd: Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Y mae popeth (e.e. teitl y bartneriaeth - John ac Evan Lloyd) yn awgrymu mai John oedd y brawd hynaf, ond ni lwyddwyd hyd yn hyn i ddarganfod dyddiadau ei eni a'i farw. Rhaid bod y cwmni yn argraffu yn yr Wyddgrug yn 1833, oherwydd yn y flwyddyn honno penodwyd Owen Jones (Meudwy Môn) yn ddarllennydd proflenni yn eu swyddfa, yn arbennig i gywiro proflenni esboniad Beiblaidd James Hughes (1779 - 1844). Yn 1834 dechreuodd y ddau frawd gyhoeddi *Y Cynniweirydd*, byr ei oes, tan olygyddiaeth Owen Jones. Ym mis Ionawr 1835 dechreuasant gyhoeddi *Y Newyddiadur Hanesyddol*, eto tan olygyddiaeth Owen Jones, ond wedi i ddau rifyn ymddangos, gadawodd Jones i fyned i wasanaethu cwmni glo. Yn y cyfamser perswadiodd Roger Edwards i ddyfod i'r Wyddgrug i gymryd ei le yn y swyddfa argraffu. Newidiodd Edwards enw'r papur (misol) i *Cronicl yr Oes*. Tan ei olygyddiaeth ef a'i olynydd, Hugh Pugh (1803 - 1868), yr oedd o natur radicalaidd iawn. Tua diwedd y flwyddyn 1838 ymwahanodd y brodyr. Symudodd John Lloyd i Dreffynnon, a chyhoeddwyd y ddau rifyn olaf o'r *Cronicl* (Rhagfyr 1838 a Ionawr 1839) yno gan ' Lloyd ac Evans '. P. M. Evans oedd y partner newydd. Yn 1848 aeth John Lloyd o Dreffynnon i Lerpwl, wedi iddo brynu cwmni John Jones (1790 - 1855) a oedd yn gyfrifol am argraffu a chyhoeddi *Yr Amserau*. Ar un adeg symudodd i Ynys Manaw gan obeithio osgoi'r dreth stampiau ar bapurau newyddion, ond ni lwyddodd yn hynny, a gorfu iddo ddychwelyd i Lerpwl. Gwerthodd Lloyd *Yr Amserau* yn 1859 i Thomas Gee, Dinbych, a chyfunodd Gee y papur â *Baner Cymru*. Hyd yma ni wyddys hanes Lloyd ar ôl y cyfnod hwn.

Ganwyd Evan Lloyd yn Yr Wyddgrug. Aeth i Lundain yn 1838 a chymerodd swydd yn y gwasanaeth sifil. Cyrhaeddodd safle uchel yn adran Cyllid Gwladol. Bu farw 2 Mai 1879 yn 81, Carlton Hill, Llundain, yn 79 oed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad: sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia, yn nghyd a'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry* (Treffynnon 1893), 13, 17, 18, 90

T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych 1913) (mynegai)

gwybodaeth gan y diweddar Mr. Robert Roberts, Fflint

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1879

Yn anffodus ni chynhwysir y ddau Lloyd yng nghyfrol Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821131

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1970). LLOYD, EVAN (1800 - 1879) a JOHN (fl. 1833-59) argraffwyr a chyhoeddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-LLOY-EVA-1800

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government